Datganiad rheoleiddwyr ar y cyd am newidiadau i gymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch

Datganiad rheoleiddwyr ar y cyd am newidiadau i gymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch

Mae cymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn newid, sy'n golygu, yn y rhan fwyaf o bynciau, y byddant yn wahanol ym mhob awdurdodaeth. Fel rheoleiddwyr cymwysterau ym mhob awdurdodaeth, rydym yn goruchwylio'r newidiadau hyn: Ofqual yn Lloegr, Cymwysterau Cymru yng Nghymru, a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) yng Ngogledd Iwerddon.

Gellir sylwi ar rai gwahaniaethau ar unwaith, megis y drefn raddio ar gyfer cymwysterau TGAU neu'r berthynas rhwng cymwysterau Safon UG a Safon Uwch. Mae gwahaniaethau eraill yn llai amlwg, er enghraifft, gallai fod gwahaniaeth yng nghynnwys pwnc neu yn y dulliau asesu a ddefnyddir i'w asesu. Mae'r holl gymwysterau TGAU a Safon Uwch yn parhau i rannu nodweddion cyffredin pwysig. Yn benodol, maent yn dal i fod o'r un maint a'u nod cyffredinol yw cydnabod cyflawniadau'r un garfan o fyfyrwyr.

Caiff y cymwysterau a ddatblygwyd i fodloni gofynion gwahanol pob rheoleiddiwr eu dyfarnu'n annibynnol ar ei gilydd. Golyga hyn na chaiff y graddau a ddyfernir mewn pwnc bellach eu meincnodi ar draws yr awdurdodaethau.Fodd bynnag, bydd pob rheoleiddiwr yn trosglwyddo'r safonau a bennir mewn cymwysterau presennol i'r rhai diwygiedig drwy ddefnyddio egwyddorion a dulliau sefydledig. Felly, bydd dal modd i'r rheini sy'n dibynnu ar y cymwysterau hyn wneud cymariaethau bras rhwng y cymwysterau gwahanol, er enghraifft, wrth wneud cais am swydd neu i addysg uwch.

Drwy gydol y broses newid, nod y tri rheoleiddiwr yw bod y cymwysterau yn cadw'r un gwerth i'r rheini sy'n eu sefyll ac yn dibynnu arnynt, waeth pa fersiwn bynnag a gaiff ei sefyll.

Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i baratoi'r trosolwg hwn o'r prif bethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y cymwysterau newydd a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n gilydd fel y gall y cymwysterau hyn barhau i ennyn hyder y cyhoedd.

Newidiadau i gymwysterau Safon UG a Safon Uwch

Mae gwahaniaethau pwysig yn rhai o nodweddion dyluniad y cymwysterau Safon UG a Safon Uwch newydd ym mhob un o'r tair gwlad; fodd bynnag, maent hefyd yn parhau i rannu nifer o nodweddion pwysig.

Nodweddion cyffredin:

- Caiff graddau myfyrwyr eu cofnodi fel A* i E ar gyfer Safon Uwch ac A i E ar gyfer Safon UG.
- Mae'r gofynion o ran cynnwys yn debyg ar y cyfan ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau. I gael rhagor o fanylion am ofynion cynnwys pynciau unigol ac i weld ble a sut y mae'r gofynion hyn yn wahanol, gallwch ddilyn y dolenni ar waelod y ddogfen hon.
- Mae cyfran yr asesiadau nas cynhelir drwy arholiad wedi'i phennu i'r isafswm y tybir ei fod yn angenrheidiol er mwyn asesu agweddau hanfodol ar y pwnc na ellir eu hasesu'n ddilys drwy arholiad. Mae'r tybiannau hyn weithiau'n amrywio ar draws yr awdurdodaethau, er enghraifft, mewn bioleg, ffiseg a chemeg, y mae'r dull ar gyfer cofnodi canlyniadau asesiadau ymarferol yn wahanol, hefyd.

- Mae amcanion asesu a'u pwysoliadau yr un fath yn y rhan fwyaf o bynciau. Gallwch weld manylion y rhain, a ble a sut y mae'r gofynion hyn yn wahanol, drwy ddilyn y dolenni ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Rhaid i asesiadau Safon Uwch ym mhob pwnc ofyn i fyfyrwyr ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o gynnwys y pwnc. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae'n ofyniad cyffredin i fyfyrwyr roi ymatebion estynedig.
- Mae cynnwys cymwysterau Safon UG yn parhau i fod tua hanner cynnwys y cymwysterau Safon Uwch llawn.

Y prif wahaniaethau

Y berthynas rhwng y cymhwyster UG a'r cymhwyster Safon Uwch:

- Mae'r cymwysterau UG newydd a gynlluniwyd i fodloni gofynion a bennwyd gan Ofqual yn gymwysterau annibynnol ac ni fyddant yn cyfrannu at ganlyniadau Safon Uwch. Mae cymwysterau UG newydd a gynlluniwyd i fodloni gofynion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation yn cyfrannu 40% o gyfanswm marciau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

Strwythur asesu:

- Bydd cymwysterau UG a Safon Uwch newydd sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion Ofqual yn gymwysterau llinol gyda'r holl arholiadau ar ddiwedd y cwrs. Yn y cymwysterau UG newydd sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru a'r rhai a bennwyd gan CCEA Regulation, bydd arholiadau UG ar gael i fyfyrwyr eu sefyll naill ai ar ddiwedd y cwrs UG neu ochr yn ochr ag unedau U2 ar ddiwedd y cwrs Safon Uwch.

Cyfleoedd i ailsefyll asesiadau:

- Ar gyfer pob cymhwyster UG a Safon Uwch sydd wedi'i gynllunio i fodloni gofynion Ofqual, rhaid i fyfyrwyr ailsefyll pob un o'u harholiadau wrth ailsefyll y cymhwyster. Gellir ailddefnyddio marciau asesiad nas cynhelir drwy arholiad.
- Yn y cymwysterau UG a Safon Uwch unedol sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru a'r rhai sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion a bennwyd gan CCEA Regulation, gall myfyrwyr ailsefyll unedau unigol unwaith yn unig.

Newidiadau i gymwysterau TGAU

Mae gwahaniaethau pwysig yng nghynllun y cymwysterau TGAU newydd ym mhob un o'r tair gwlad. Mae mwy o wahaniaethau hefyd ar lefel pwnc rhwng y cymwysterau TGAU newydd a gaiff eu cynnig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon nag sydd rhwng y cymwysterau UG a Safon Uwch newydd. Fodd bynnag, mae cymwysterau TGAU yn parhau i rannu nifer o nodweddion pwysig o ran eu cynllun.

Nodweddion cyffredin:

- Bydd y cymwysterau tua'r un faint ac yn hygyrch i'r un ystod o fyfyrwyr â'r rhai y maent wedi'u disodli.

- Mae cyfran yr asesiadau nas cynhelir drwy arholiad wedi'i phennu i'r isafswm y tybir ei fod yn angenrheidiol er mwyn asesu agweddau hanfodol ar y pwnc na ellir eu hasesu'n ddilys drwy arholiad. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau yn y gofynion cynnwys yn golygu bod cyfanswm yr asesiad diarholiad sy'n ofynnol gan bob rheoleiddiwr yn wahanol mewn rhai pynciau; mae hyn yn wir yn achos Hanes a Llenyddiaeth Saesneg, er enghraifft.
- Mae asesiadau cymwysterau TGAU, ym mhob pwnc, yn gofyn i fyfyrwyr ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o gynnwys y pwnc. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae'n ofyniad cyffredin i fyfyrwyr roi ymatebion estynedig.

Y prif wahaniaethau

Graddio:

- Bydd tair trefn raddio wahanol ar gyfer cymwysterau TGAU ar draws y tair gwlad.
- Caiff cymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion Ofqual eu graddio rhwng 9 ac 1, a 9 fydd y radd uchaf. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y drefn raddio yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/537147/Postcard_-_Grading_New_GCSEs.pdf.
- Caiff cymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion Cymwysterau Cymru eu graddio rhwng A* a G.
- Caiff cymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion CCEA Regulation eu graddio ar raddfa naw pwynt gan gwmpasu graddau A* i G. Mae hyn yn cynnwys gradd C* newydd a nod CCEA fydd pennu safon yn debyg i radd 5 yn Lloegr; a bydd y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu hefyd yn ceisio sicrhau bod yr A* yn gydnaws â gradd 9 yn Lloegr.

Cynnwys pwnc

- Mae gofynion o ran cynnwys yn wahanol yn y rhan fwyaf o bynciau, er bod natur a maint y gwahaniaethau hyn yn amrywio. Ceir manylion am ddisgwyliadau cynnwys gwahanol drwy ddilyn y dolenni ar waelod y ddogfen.

Amcanion asesu

- Mae'r amcanion asesu a'u pwysoliadau yn wahanol mewn rhai pynciau, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth mewn disgwyliadau cynnwys pwnc. Ceir manylion am yr amcanion asesu gwahanol hyn drwy ddilyn y dolenni ar waelod y ddogfen.

Strwythur asesu:

- Bydd yr holl gymwysterau TGAU newydd sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion Ofqual yn gymwysterau llinol gyda'r holl arholiadau ar ddiwedd y cwrs.
- Ar gyfer cymwysterau TGAU llinol sy'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation, rhaid i fyfyrwyr, yn yr un modd, sefyll pob un o'u harholiadau ar

ddiwedd y cymhwyster. Bydd rhai pynciau yn gymwysterau llinol a bydd eraill yn unedol; bydd yn rhaid i ysgolion gadarnhau hyn gyda'u bwrdd arholi.

Cyfleoedd i ailsefyll asesiadau a chario marciau asesiadau nas cynhelir drwy arholiad ymlaen:

- Ar gyfer cymwysterau TGAU newydd sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion Ofqual, rhaid i fyfyrwyr ailsefyll pob un o'u harholiadau wrth ailsefyll y cymhwyster. Gellir ailddefnyddio marciau asesiad nas cynhelir drwy arholiad.
- Ar gyfer cymwysterau TGAU llinol sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru neu gan CCEA Regulation, rhaid i fyfyrwyr ailsefyll pob un o'u harholiadau wrth ailsefyll y cymhwyster. Ar gyfer cymwysterau unedol, gall myfyrwyr ailsefyll unedau unigol unwaith yn unig.

Pennu a chynnal safonau:

Wrth bennu safonau ar gyfer dyfarniad cyntaf y cymwysterau newydd, bydd pob rheoleiddiwr yn trosglwyddo safonau o'r cymwysterau etifeddol.

Yn ystod y blynyddoedd i ddod, bydd pob rheoleiddiwr yn cymhwyso methodolegau ar gyfer cynnal safonau graddau dros amser. Rydym yn disgwyl i'r rhain fod yn seiliedig ar egwyddorion sefydledig tebyg. Bydd manylion penodol y dull gweithredu ychydig yn wahanol o un wlad i'r llall, gan adlewyrchu'r carfannau sy'n sefyll y cymwysterau a'r data sydd ar gael i'r rheoleiddwyr. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y methodolegau a gaiff eu cymhwyso ar wefan pob un o'r rheoleiddwyr ac mae dolenni allweddol wedi'u cynnwys ar waelod y ddogfen hon.[1]

Caiff y cymwysterau sydd wedi'u datblygu i fodloni gofynion gwahanol pob rheoleiddiwr eu dyfarnu'n annibynnol ar ei gilydd. Golyga hyn na chaiff y graddau a ddyfernir mewn pwnc bellach eu meincnodi ar draws yr awdurdodaethau. Wrth i bob rheoleiddiwr drosglwyddo'r safonau a bennir mewn cymwysterau presennol i'r rhai diwygiedig, bydd dal modd i'r rheini sy'n dibynnu ar y cymwysterau hyn wneud cymariaethau bras rhwng y cymwysterau gwahanol, er enghraifft, wrth wneud cais am swydd neu i addysg uwch. Mae'r tri rheoleiddiwr yn gweithio gyda'i gilydd wrth iddynt adolygu eu dulliau o gynnal safonau yn rheolaidd.

[1] Nid yw rhai penderfyniadau ynghylch trefniadau graddio yng Ngogledd Iwerddon wedi'u gwneud eto. Byddwn yn diweddaru'r ddogfen hon ar ôl i'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud.

Argaeledd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:

Mae'r byrddau arholi canlynol wrthi'n cynllunio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd sy'n bodloni gofynion Ofqual - AQA, OCR, Pearson, Eduqas CBAC. Bydd y cymwysterau hyn ar gael ar gyfer pob pwnc yn Lloegr, y rhan fwyaf o bynciau yng Ngogledd Iwerddon, a rhai pynciau yng Nghymru.

Mae CBAC wrthi'n cynllunio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd i fodloni gofynion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru. Bydd cymwysterau UG a Safon Uwch sydd wedi'u cynllunio i fodloni'r gofynion hyn ar gael yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Bydd cymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio i fodloni'r gofynion hyn ond ar gael yng Nghymru. Mae Sefydliad Dyfarnu CCEA wrthi'n cynllunio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd i fodloni gofynion CCEA Regulation. Bydd y cymwysterau hyn ond ar gael yng Ngogledd Iwerddon.

Pennwyd gofynion o ran cymwysterau gan	**Ar gael yn**	**Sefydliadau Dyfarnu**
Ofqual	• Lloegr, ar gyfer pob pwnc • Gogledd, Iwerddon ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau • Cymru, lle nad oes cymhwyster wedi'i ddatblygu i fodloni gofynion Cymwysterau Cymru	AQA, Eduqas (CBAC), OCR, Pearson.
Cymwysterau Cymru	• Cymru • Gogledd Iwerddon ar gyfer Safon UG ac Uwch yn unig	CBAC
CCEA Regulation	Gogledd Iwerddon	Sefydliad Dyfarnu CCEA

Trefniadau lefel pwnc

Mae'r tabl isod yn nodi ym mha bynciau y mae cymwysterau yn cael eu diwygio i fodloni'r meini prawf a bennwyd gan bob rheoleiddiwr. Gall ysgolion a cholegau ddefnyddio'r tabl hwn i weld pa gymwysterau sydd wedi'u datblygu i'w defnyddio ym mhob awdurdodaeth, ac ar y cyd â'r tabl uchod, pa gymwysterau, ym mha bynciau, sydd ar gael iddynt.

Caiff cymwysterau eu diwygio fesul cam, sy'n golygu bod rhai cymwysterau yn cael eu diwygio ar adegau gwahanol yn y tair gwlad. Nid yw pob pwnc wedi'i ddiwygio eto - i gael rhagor o fanylion, ewch i wefan y rheoleiddiwr perthnasol neu cysylltwch â'ch bwrdd arholi.

Pwnc Safon Uwch	**Pennwyd gofynion gan Ofqual**	**Pennwyd gofynion gan Cymwysterau Cymru**	**Pennwyd gofynion gan CCEA Regulation**
Teitl y pwnc	Do / Naddo	Do / Naddo	Do / Naddo
Cyfrifyddu	Do	Naddo	Naddo
Hanes yr henfyd	Do	Naddo	Naddo
Ieithoedd hynafol (Groeg clasurol a Lladin)	Do	Naddo	Naddo
Archeoleg	Do	Naddo	Naddo
Celf a dylunio	Do	Do	Do
Dylunio a Thechnoleg	Do	Do	Do
Busnes	Do	Do	Do
Gwareiddiad clasurol	Do	Naddo	Naddo
Cyfrifiadureg	Do	Do	Naddo
Dawns	Do	Naddo	Naddo
Technoleg ddigidol		Naddo	Do
Drama a theatr	Do	Do	Naddo
Economeg	Do	Do	Do
Electroneg	Do	Naddo	Naddo
Saesneg iaith	Do	Do	Naddo
Saesneg iaith a llenyddiaeth	Do	Do	Naddo
Llenyddiaeth Saesneg	Do	Do	Do
Gwyddor amgylcheddol	Do	Naddo	Naddo
Technoleg amgylcheddol		Naddo	Do
Astudiaethau ffilm	Do	Naddo	Naddo
Mathemateg bellach	Do	Do	Do
Daearyddiaeth	Do	Do	Do
Daeareg	Do	Naddo	Naddo
Llywodraeth a gwleidyddiaeth[2]	Naddo	Do	Naddo
Iechyd a gofal cymdeithasol		Naddo	Do
Hanes	Do	Do	Do
Pwnc Safon Uwch	**Pennwyd gofynion gan Ofqual**	**Pennwyd gofynion gan Cymwysterau Cymru**	**Pennwyd gofynion gan CCEA Regulation**
Teitl y pwnc	Do/Naddo	Do/Naddo	Do/Naddo
Hanes celf	Do	Naddo	Do
Gwyddeleg		Naddo	Do
Newyddiaduraeth		Naddo	Do
Y Gyfraith	Do	Do	Naddo
Gwyddorau bywyd ac iechyd		Naddo	Do

[2] Noder bod gwleidyddiaeth ar gael gyda chynnwys pwnc ar wahân yn Lloegr.

Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg)	Do	Do	Do
Ieithoedd Tramor Modern (ieithoedd eraill)	Do	Do	Do
Mathemateg	Do	Do	Do
Mathemateg - rhifedd	Naddo	Do	Naddo
Astudiaethau'r cyfryngau	Do	Do	Naddo
Celfyddydau delweddau symudol	Naddo	Naddo	Do
Cerddoriaeth	Do	Do	Do
Technoleg Cerddoriaeth	Do	Naddo	Naddo
Maeth a gwyddor bwyd	Naddo	Naddo	Do
Celfyddydau perfformio	Naddo	Naddo	Do
Athronyddiaeth	Do	Naddo	Naddo
Addysg Gorfforol	Do	Do	Naddo
Gwleidyddiaeth[3]	Do	Naddo	Do
Seicoleg	Do	Do	Naddo
Astudiaethau crefyddol	Do	Do	Do
Gwyddoniaeth (bioleg, cemeg a ffiseg)	Do	Do	Do
Cymdeithaseg	Do	Naddo	Naddo
Datblygu systemau meddalwedd	Naddo	Naddo	Do
Gwyddor chwaraeon a'r diwydiant hamdden ymarferol	Naddo	Naddo	Do
Ystadegau	Do	Naddo	Naddo
Cymraeg	Naddo	Do	Naddo
Cymraeg ail iaith	Naddo	Do	Naddo

[3] Mae Llywodraeth a gwleidyddiaeth ar gael gyda chynnwys pwnc ar wahân yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Pwnc TGAU	**Pennwyd gofynion gan Ofqual**	**Pennwyd gofynion gan Cymwysterau Cymru**	**Pennwyd gofynion gan CCEA Regulation**
Teitl y pwnc	Do / Naddo	Do / Naddo	Do / Naddo
Hanes yr henfyd	Do	Naddo	Naddo
Ieithoedd hynafol (Groeg clasurol a Lladin)	Do	Naddo	Naddo
Amaethyddiaeth a defnydd o dir	Naddo	Naddo	Do
Gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl)	Naddo	Do	Naddo
Gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl)	Naddo	Do	Naddo
Seryddiaeth	Do	Naddo	Naddo
Celf a dylunio	Do	Do	Do
Dylunio a Thechnoleg	Do	Do	Do
Bioleg	Do	Do	Do
Busnes	Do	Do	Do
Systemau busnes a chyfathrebu	Naddo	Naddo	Do
Cemeg	Do	Do	Do
Datblygiad plentyn	Naddo	Naddo[4]	Do
Astudiaethau dinasyddiaeth	Do	Naddo	Naddo
Gwyddoniaeth gyfunol (dyfarniad dwbl)	Do	Do	Do
Cyfrifiadureg	Do	Do	Naddo
Adeiladu	Naddo	Naddo	Do
Crefftau cyfoes	Naddo	Naddo	Do
Dawns	Do	Naddo	Naddo
Technoleg ddigidol	Naddo	Naddo	Do
Drama	Do	Do	Do
Economeg	Do	Naddo	Do
Electroneg	Do	Naddo	Naddo
Saesneg iaith	Do	Do	Do
Llenyddiaeth Saesneg	Do	Do	Do
Peirianneg	Do	Naddo	Naddo
Astudiaethau ffilm	Do	Naddo	Naddo
Bwyd a maeth	Do	Do	Do
Mathemateg bellach	Naddo	Naddo	Do
Gaeilge / Gwyddeleg	Naddo	Naddo	Do
Daearyddiaeth	Do	Do	Do
Daeareg	Do	Naddo	Naddo
Llywodraeth a gwleidyddiaeth	Naddo	Naddo	Do
Iechyd a gofal cymdeithasol	Naddo	Naddo[5]	Do

Hanes	Do	Do	Do
Pwnc TGAU	**Pennwyd gofynion gan Ofqual**	**Pennwyd gofynion gan Cymwysterau Cymru**	**Pennwyd gofynion gan CCEA Regulation**
Lletygarwch	Naddo	Naddo	Do
Gwyddeleg	Naddo	Naddo	Do
Newyddiaduraeth	Naddo	Naddo	Do
Dysgu am oes a gwaith	Naddo	Naddo	Do
Hamdden a thwristiaeth	Naddo	Naddo	Do
Gweithgynhyrchu a Pheirianneg	Naddo	Naddo	Do
Mathemateg	Do	Do*	Do
Astudiaethau'r cyfryngau	Do	Do	Naddo
Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg)	Do	Do	Do
Astudiaethau cerbydau modur a defnyddwyr y ffordd	Naddo	Naddo	Do
Celfyddydau delweddau symudol	Naddo	Naddo	Do
Cerddoriaeth	Do	Do	Do
Addysg Gorfforol	Do	Do	Do
Addysg gorfforol cwrs byr	Do	Do	Naddo
Ffiseg	Do	Do	Do
Seicoleg	Do	Naddo	Naddo
Astudiaethau crefyddol	Do	Do	Do
Astudiaethau crefyddol cwrs byr	Naddo	Do	Naddo
Gwyddoniaeth dyfarniad sengl	Naddo	Naddo	Do
Gwyddoniaeth sengl (bioleg, cemeg a ffiseg)	Do	Do	Naddo
Cymdeithaseg	Do	Naddo	Naddo
Ystadegau	Do	Naddo	Do
Cymraeg	Naddo	Do	Naddo
Llenyddiaeth Gymraeg	Naddo	Do	Naddo
Cymraeg ail iaith	Naddo	Do	Naddo

[4] Bydd darpariaeth cymwysterau TGAU etifeddol yn parhau i fod ar gael yng Nghymru tan 2020.

[5] Bydd darpariaeth cymwysterau TGAU etifeddol yn parhau i fod ar gael yng Nghymru tan 2020.

Dolenni defnyddiol

www.ofqual.gov.uk

Trosolwg o ddigwyddiadau yn Lloegr - https://www.gov.uk/government/publications/your-qualification-our-regulation-gcse-as-and-a-level-reforms

Gwybodaeth am drefn raddio cymwysterau TGAU - https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/537147/Postcard_-_Grading_New_GCSEs.pdf

www.dfe.gov.uk

Cynnwys cymwysterau TGAU - https://www.gov.uk/government/collections/gcse-subject-content

Cynnwys cymwysterau Safon Uwch - https://www.gov.uk/government/collections/gce-as-and-a-level-subject-content

http://www.cymwysteraucymru.org

Argaeledd cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol diwygiedig yng Nghymru - http://qualificationswales.org/development/?lang=cy

Canllaw Derbyn Myfyrwyr Addysg Uwch Cymwysterau Cymru - http://qualificationswales.org/media/1658/he-guide-cy-2016.pdf

Manylebau cymwysterau TGAU CBAC – http://www.cbac.co.uk/qualifications/levels/gcse/?language_id=2

Manylebau cymwysterau Safon Uwch CBAC - http://www.cbac.co.uk/qualifications/levels/gceaas.html?language_id=2

http://ccea.org.uk/regulation

Gwybodaeth ynghylch y cymwysterau sydd ar gael yng Ngogledd Iwerddon -

http://ccea.org.uk/regulation/qualsni

Manylion cymwysterau TGAU a Safon UG ac Uwch CCEA -

http://ccea.org.uk/qualifications/revision